

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 a Fideo Gynhadledd Fay Bowen
ar Zoom Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022 0300 200 6565
Amser: 09.00 SeneddCCGG@senedd.cymru

Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

(Rhag-gyfarfod preifat)

(09:00 – 10:45)

- 1 Adfywio Canol Trefi: Papur Cwmpasu diwygiedig**
(09:15–09:30) (Tudalennau 1 – 4)
- 2 Briff cyfreithiol ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil
Caffael**
(09:30–10:00) (Tudalennau 5 – 36)
- 3 Blaenraglen waith: Diweddariad**
(10:00–10:15) (Tudalennau 37 – 105)
- 4 Comisiynu Cartrefi Gofal: Ystyried yr adroddiad**
(10:15–10:45)
- (Egwyl)**
(10:45–11:00)
- 5 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**
(11:00)
- 6 Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru: Pryniant Fferm
Gilestone**
(11:00–12:00) (Tudalennau 106 – 140)



Andrew Slade – Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r
Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru

Jason Thomas – Cyfarwyddwr – Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth
Cymru

Gerwyn Evans – Dirprwy Gyfarwyddwr – Cymru Greadigol

Tim Howard – Dirprwy Gyfarwyddwr – Eiddo, Llywodraeth Cymru

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

(12:00)

Eitem 8

**8 Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru: Pryniant Fferm
Gilestone: Trafod y dystiolaeth ddaeth i law**

(12:00–12:30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector

Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Pam y rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ychwanegol i'r Trydydd Sector yng Nghymru?	5
Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu ers mis Ebrill 2020 ac at ba ddibenion?	6
Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru weinyddu elfennau allweddol ei chymorth ychwanegol?	8
Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru gydbwysu gofynion i sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol â'r angen i ymateb yn gyflym?	10
Faint o sefydliadau a gafodd gymorth, ar gyfer pa weithgareddau, ac a oes unrhyw arwyddion o lwyddiant?	13
Atodiad 1: Dyraniad Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2021	18
Atodiad 2: Amserlen y digwyddiadau allweddol	21
Atodiad 3: Astudiaeth achos	25

Cyflwyniad

- 1 Mae'r memorandwm hwn yn canolbwyntio ar y £41.79 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy ei Chronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector yn ystod 2020–21 a 2021–22, ac mae'n ystyried:
 - pam, yn 2020–21, y rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ychwanegol i'r Trydydd Sector¹ yng Nghymru – drwy roi mwy o hyblygrwydd dros y cyllid presennol a rhywfaint o gyllid newydd hefyd – i ymateb i heriau uniongyrchol pandemig COVID-19;
 - faint o gymorth parhaus a ddarparwyd yn ystod 2021–22 i helpu i ymdrin ag effeithiau parhaus y pandemig ac i gynyddu cadernid y Trydydd Sector;
 - sut y gweinyddodd Llywodraeth Cymru ei chymorth;
 - sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydbwysu gofynion er mwyn sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu rheoli'n briodol â'r angen i ymateb yn gyflym; a
 - faint o sefydliadau a gafodd gymorth, ar gyfer pa weithgareddau, ac a yw gwerthusiadau cychwynnol yn dangos canlyniadau llwyddiannus.
- 2 Nid ydym wedi archwilio'n bersonol yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau nac effeithiolrwydd unrhyw un o'r dyfarniadau unigol, nac wedi ceisio llunio safbwynt cyffredinol ynghylch gwerth am arian. Nid ydym wedi cynnal profion manwl ar reolaethau ychwaith. Fodd bynnag, rydym wedi adolygu adroddiadau a dogfennau eraill sy'n darparu tystiolaeth bod rheolaethau ar waith sydd â'r bwriad o dargedu cyllid, rheoli risgiau ariannol, a sicrhau gwerth am arian. Mae **Atodiad 1** yn rhoi trosolwg o'r gwahanol elfennau a oedd yn ffurfio'r gronfa gyffredinol a'r dyraniadau i wahanol elfennau. Mae **Atodiad 2** yn darparu amserlen y digwyddiadau allweddol.

¹ Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term 'Trydydd Sector' mewn cysylltiad â sefydliadau annibynnol, gwirfoddol, cymunedol a dielw amrywiol; y mae rhai ohonynt yn elusennau.

Pam y rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ychwanegol i'r Trydydd Sector yng Nghymru?

- 3 Wrth i lywodraethau gwledydd y DU roi cyfyngiadau symud ar waith ym mis Mawrth 2020, daeth yn amlwg bod y Trydydd Sector, gan gynnwys elusennau a sefydliadau dielw yng Nghymru, yn wynebu pwysau ariannol a gweithredol enfawr. Yn nodedig:
- roedd ffynonellau cyllid arferol drwy siopau, digwyddiadau a chasgliadau wedi dod i ben;
 - roedd cyfyngiadau teithio a chyswllt yn effeithio ar y staff a oedd ar gael, ac yn cyfyngu ar y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperid;
 - roedd mwy o bobl yn dod yn agored i niwed neu eisoes yn dioddef caledi ac roedd angen mwy o gymorth ar ddefnyddwyr gwasanaeth presennol; ac
 - roedd y seilwaith presennol yn ei chael hi'n anodd symud llawer o wirfoddolwyr parod ac roedd y staff mewn perygl o gael eu gorlethu.
- 4 Daeth Llywodraeth Cymru yn fwyfwy pryderus y byddai sefydliadau'r Trydydd Sector yn methu wrth wynebu galw digynsail am eu gwasanaethau; gan adael pobl mewn angen heb fynediad at gymorth. Mewn ymateb, ar 27 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gweithredu'n gyflym i:
- ddefnyddio pwerau argyfwng presennol i ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellid defnyddio rhai cronfeydd parhaus; a
 - sefydlu cronfa newydd o £24 miliwn â chyfyngiad amser at ddibenion penodol yn gysylltiedig â'r pandemig.
- 5 Ar 8 Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn cymorth gwerth £750 miliwn ar gyfer elusennau rheng flaen, i'w ddsbarthu drwy amrywiaeth o ffyrdd². Roedd y pecyn, a gynyddwyd yn ddiweddarach, yn cynnwys rhagdybiaeth bod o leiaf £60 miliwn yn cael ei darparu i lywodraethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon o dan Fformiwla Barnett.
- 6 Cafodd Llywodraeth Cymru bron i £18 miliwn, a roddwyd yn ei chronfeydd wrth gefn ac y tynnodd arian ohonynt yn ddiweddarach i gefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gwybod y byddai Llywodraeth y DU yn darparu'r cyllid hwn pan gyhoeddodd ei chymorth ei hun.

² Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadroddiad, [Investigation into government funding to charities during the COVID-19 pandemic](#), sy'n nodi ffeithiau allweddol mewn cysylltiad â dosbarthiad a goruchwyliaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r pecyn cyffredinol hwn gwerth £513 miliwn yn Lloegr.

Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu ers mis Ebrill 2020 ac at ba ddibenion?

Arian a ddargyfeiriwyd neu a dynnwyd o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer cymorth amser cyfyngedig yn ystod 2020–21

- 7 Er mwyn creu pecyn cymorth ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru, a elwir ar y cyd yn Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, yn ogystal â'r £24 miliwn gychwynnol o arian newydd, a dynnwyd o gronfeydd wrth gefn (gweler **paragraff 4**), dargyfeiriodd Llywodraeth Cymru £5.3 miliwn o fentrau eraill y Trydydd Sector a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Daeth £4.7 miliwn arall o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru (£0.5 miliwn ym mis Rhagfyr 2020 a £4.2 miliwn ym mis Ionawr 2021) â'r cyfanswm a roddwyd i Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector yn 2020-21 i £34.05 miliwn.

Cyllid ychwanegol ar gyfer 2021–22

- 8 Rhwng mis Mawrth 2021 a diwedd mis Rhagfyr 2021, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu £7.74 miliwn arall o gronfeydd wrth gefn, gan ddod â'r cyfanswm a neilltuwyd i Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector ers mis Ebrill 2020 i £41.79 miliwn.

Mwy o hyblygrwydd dros y cyllid presennol

- 9 Y tu allan i'w phecyn cymorth penodol, caniatodd Llywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio rhywfaint o'r cyllid presennol a ddarperid drwy ei Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a Grant Cymorth y Trydydd Sector:
- gweithredir y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig grantiau cyfalaf am wella cyfleusterau cymunedol o dan £25,000 a grantiau mwy hyd at £250,000. Ehangwyd gwariant cymwys ar gyfer y grantiau llai am gyfnod o dri mis fel y gellid prynu neu ddisodli cyfarpar, er enghraifft, cyfarpar TGCh i ganiatáu i staff a gwirfoddolwyr weithio o bell. Yn 2020–21, derbyniodd y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol £150,000 o arian ychwanegol a oedd wedi ei addasu at ddibenion gwahanol. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn o'r Rhaglen i sefydliadau'r Trydydd Sector yn 2020–21.
 - mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)³ a'r rhwydwaith o 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweinyddu Grant Cymorth y Trydydd Sector ar ran Llywodraeth Cymru. Mae dyfarniadau grant unigol i sefydliadau'r Trydydd Sector yn darparu cymorth ar gyfer cyllid refeniw; roedd cyfanswm y rhain bron yn £4.5 miliwn yn 2020–21. Mewn ymateb i'r pandemig, rhoddodd

³ Corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru yw CGGC

Llywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd, am dri mis i ddechrau, ym mhedair colofn weithgarwch bresennol y grant, sef gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu.

Cymorth arall Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r Trydydd Sector

- 10 Yn ogystal â Chronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, gallai'r Trydydd Sector yng Nghymru gael gafael ar ffynonellau cymorth eraill, a ddarperir trwy:
- ddyraniad grant Gwirfoddoli Cymru sy'n ceisio annog mwy o bobl i wirfoddoli, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig. Mae grantiau o hyd at £20,000 ar gael i brosiectau cymwys sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy bwysleisio camau atal yn hytrach nag ymateb.
 - roedd sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru yn cael manteisio ar gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru a ddarparai gymorth yn ystod y pandemig, gan gynnwys grantiau a benthyciadau busnes, yn amodol ar gymhwysedd a gwiriadau, er mwyn osgoi dyblygu cyllid.
 - roedd Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU – y 'cynllun ffyrlo' – a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 ac a gynhaliwyd hyd at fis Medi 2021, ar gael i sefydliadau'r Trydydd Sector yng Nghymru i dalu cyfran o gyflogau eu staff. Trwy ei Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, a ddarparodd gymysgedd o grantiau a benthyciadau, cynigiodd Llywodraeth Cymru fenthyciadau pontio o hyd at £25,000 i ddechrau, i gynorthwyo sefydliadau gwirfoddol Cymru wrth iddynt aros am ad-daliadau y cynllun ffyrlo gan Lywodraeth y DU. Roedd y benthyciad hwn ar gael yn ogystal â dyfarniad Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector o hyd at £75,000. Fodd bynnag, yn ymarferol, oherwydd bod taliadau Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi eu prosesu'n gyflym, dim ond dau fenthyciad pontio Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a wnaed ac felly cafodd gweddill yr £1 miliwn a ddyrannwyd iddynt ei defnyddio at ddibenion gwahanol yng Nghronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector.

Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru weinyddu elfennau allweddol ei chymorth ychwanegol?

- 11 Cyn cyhoeddi Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydgysylltu ei gweithredoedd â phrif gyllidwyr eraill o aelodau Fforwm Cyllidwyr Cymru⁴. Ceisiodd Llywodraeth Cymru a'r grŵp hwn:
 - sicrhau'r cyrhaeddiad cyfunol mwyaf posibl, o ran daearyddiaeth a chymunedau;
 - darparu cymorth yn gyflym i gynifer â phosibl o fudiadau gwirfoddol; a
 - mynd i'r afael ag effeithiau penodol y pandemig ar grwpiau penodol sy'n agored i niwed
- 12 Roedd gan Lywodraeth Cymru berthynas hirsefydlog eisoes â CGGC, a oedd yn rheoli grantiau'r Trydydd Sector ar ei rhan. Roedd gan CGGC brofiad hefyd o fodloni gofynion gweinyddu a llywodraethu cynlluniau cyllid Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno rhoi Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector ar waith yn sydyn, felly dewisodd CGGC yn gorff cyfryngol ar gyfer elfennau allweddol o'r Gronfa (gweler **Atodiad 1**), gan ddefnyddio ei gysylltiadau, ei wybodaeth a'i brofiad ar lawr gwlad, a'r seilwaith presennol ar gyfer gweinyddu grantiau.
- 13 Er mwyn gweithredu'n gyflym oherwydd y sefyllfa frys, defnyddiodd Llywodraeth Cymru hyblygrwydd yn y rheolau caffael presennol gan ei chaniatáu, mewn argyfwng, i ddyfarnu contract uniongyrchol heb hysbysebu'n agored na chystadleuaeth. Ar 9 Ebrill 2020, yn dilyn proses ymgeisio un tendr, dyfarnodd Llywodraeth Cymru y gwaith o weinyddu'r £10 miliwn gychwynnol o Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, i CGGC. Mae'r llythyr cynnig grant yn nodi amodau'r cyllid; gan gynnwys dibenion y gronfa, y gofynion monitro a'r angen i hawlio cyllid erbyn 15 Mawrth 2021. Pan gaeodd Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, cytunodd Llywodraeth Cymru i sefydlu iteriad newydd o Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector ar gyfer 2021-22. Roedd y contract ar gyfer gweinyddu hyn yn ddarostyngedig i dendr cystadleuol agored, gan arwain at ddau gais, ac fe'i henillwyd gan CGGC.
- 14 Sefydlwyd Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol, a Chronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol a'i disodlodd hi, ar sail amrywiadau i ddyfarniadau cyllid presennol i CGGC gan Lywodraeth Cymru, ac felly nid oedd yn ddarostyngedig i dendr newydd.
- 15 Mae CGGC yn codi llog ar fenthyciadau Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, ac mae hyn yn talu am ei gostau gweinyddol. Mae CGGC wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru i gyfrifo'r costau a'r gyfradd llog. Roedd Cam 3 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn cynnwys £0.53

⁴ Roedd Fforwm Cyllidwyr Cymru, rhwydwaith cyllidwyr anwleidyddol, yn cysylltu'r canlynol yn anffurfiol: Llywodraeth Cymru; CGGC; Sefydliad Cymunedol Cymru; Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Cymru); Sefydliad Lloyds Bank; a Moondance Foundation.

miliwn ar gyfer costau gweinyddu grantiau CGGC. Ni chymerodd CGGC ran o Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol na Chronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol. Yn hytrach, er mwyn cryfhau ei allu i weinyddu'r cronfeydd hyn, derbyniodd CGGC £343,000 o'r Gronfa Galluogi Seilwaith yn 2020–21.

- 16 Galluogodd deialog barhaus rhwng Llywodraeth Cymru a CGGC y trefniadau i gael eu monitro a'u hadolygu. Hwylusodd hyn y dasg o ddysgu mewn amser real ac, yn ei dro, gwnaeth hynny lywio gwelliannau i brosesau, gan dargedu cronfeydd yn well, er enghraifft:
- roedd yn ymddangos bod Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn eithrio rhai grwpiau, yn enwedig sefydliadau anghorfforedig,⁵ lle byddai ymddiriedolwyr yn atebol yn bersonol am fenthyciadau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gallai sefydliadau a oedd yn ystyried ymgorffori wneud cais i Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector ac, os oeddent yn cael eu cymeradwyo, gallent godi arian grant ar ôl iddynt gael eu hymgorffori. Roedd Cam 3 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn blaenoriaethu sefydliadau corfforedig a oedd yn rhoi cymorth i bobl â nodweddion gwarchoddedig nad oeddent wedi derbyn cyllid Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector o'r blaen.
 - er mwyn symud y pwyslais o argyfwng i adferiad, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a waethygydd gan y pandemig, yn enwedig mewn cysylltiad â materion fel iechyd meddwl, ym mis Awst 2020, disodlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol â Chronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, a fu'n agored tan ddiwedd mis Mawrth 2021.

⁵ Proses gyfreithiol pan fo sefydliad yn caffael hunaniaeth a statws ar wahân i'w berchenogion, y mae eu rhwymedigaeth am ddyledion wedyn yn gyfyngedig i werth eu cyfranddaliadau yw ymgorffori. I'r gwrthwyneb, mae gan ymddiriedolwyr cyrff trydydd sector anghorfforedig atebolrwydd personol a rennir am swm llawn unrhyw fenthyciadau.

Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru gydbwysu gofynion i sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol â'r angen i ymateb yn gyflym?

- 17 Agorwyd pecynnau cymorth cychwynnol Llywodraeth Cymru yng Nghronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector yn sydyn, i ddyfarnu cyllid â chyfyngiad amser i ymgeiswyr cyn 31 Mawrth 2021 at ddibenion penodol. Er mwyn gweithredu'n gyflym wrth geisio sicrhau bod y gwariant yn cael ei lywodraethu'n dda, dibynnai Llywodraeth Cymru ar fframweithiau presennol o reolaethau cydgysylltiedig. Roedd y rheolaethau hyn yn cynnwys gwirio ac adrodd ar lefelau:
- Llywodraeth Cymru;
 - CGGC; ac
 - ymgeiswyr a derbynwyr.

Rheolaethau Llywodraeth Cymru

- 18 Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor gan ei Chanolfan Ragoriaeth Grantiau ac adeiladodd ar ei threfniadau presennol gyda CGGC i roi ystod o fesurau ar waith ar gyfer elfennau'r Gronfa a reolwyd gan CGGC, gan gynnwys:
- canllawiau i'r Trydydd Sector ar y meini prawf cymhwysedd a'r cymorth a oedd ar gael, a ddiweddarwyd o bryd i'w gilydd;
 - gwirio bod ceisiadau am daliadau gan CGGC i Lywodraeth Cymru, am gyllid y mae CGGC yn ei ddsbarthu yn ddiweddarach, wedi eu cwblhau'n briodol a bod tystiolaeth ohonynt;
 - gwirio i sicrhau bod ceisiadau gan sefydliadau'r Trydydd Sector yn dod o fewn cwmpas a gofynion y gronfa berthnasol;
 - gofynion ar gyfer monitro, adrodd a gwerthuso ceisiadau, dyfarniadau ac effeithiau yn rheolaidd;
 - rhannu gwybodaeth â CGGC am fuddiolwyr ffrydiau cyllid eraill, er mwyn osgoi dyblygu; ac
 - amodau'r cyllid, gan gynnwys telerau a oedd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fonitro gwariant ac adennill unrhyw gyllid dwbl, gan gynnwys unrhyw ryddhad ardrethi busnes a chymorthdaliadau cyflog.
- 19 Er enghraifft, ni ellid darparu cyllid o gynlluniau Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol na Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn gyffredinol pe byddai sefydliadau eisoes wedi derbyn cyllid o Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru. Hefyd, cynhaliodd swyddogion wiriadau i sicrhau nad oedd Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol yn dyblygu cymorth gan Lywodraeth y DU na gan y Gronfa Galedi Frys i Awdurdodau Lleol.
- 20 Ym mis Mehefin 2020, cyn y byddai Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid i CGGC ar gyfer Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, a agorwyd ym mis Awst 2020 ac a ddisodlodd Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol, roedd yn ofynnol i

CGGC lunio adroddiad gwerthuso Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol. Ni wnaeth yr adroddiad archwilio'n uniongyrchol yr effaith ar unigolion sy'n agored i niwed, oherwydd eu bod yn debygol o fod wedi cael cymorth o amrywiaeth o ffynonellau. Yn hytrach, edrychodd ar ddangosyddion a werthusodd Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol mewn cysylltiad â mynd i'r afael ag angen.

- 21 Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth fanwl am ddyfarniadau a chwmpas themâu/grwpiau defnyddwyr yn ogystal â dadansoddiad fesul ardal awdurdod lleol, yn gysylltiedig â ffactorau fel poblogaeth, nifer yr achosion o'r feirws, mynegeion amddifadedd a chategoriâu o weithgarwch prosiectau. Canfu berthynas gref rhwng dyraniadau cyllid i ardaloedd awdurdodau lleol a nifer yr achosion o COVID-19, ond perthynas wannach rhwng cyllid ac amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, a gwendidau penodol; gan nodi'r angen i sicrhau bod cyllid yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effeithiau penodol y pandemig ar grwpiau targed. Llywiodd yr adroddiad y trefniadau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol a chamau dilynol Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector.
- 22 Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru adroddiad ar ddyluniad a gweithrediad trefniadau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau trefn lywodraethu, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol mewn cysylltiad â chymorth COVID-19 i'r Trydydd Sector. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar elfennau gwerth uwch Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, sef Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol. Ceisiodd adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gadarnhau a oedd y cynlluniau'n cael eu gweinyddu'n effeithiol, ac roedd y rheolwyr wedi nodi a rheoli risgiau i gyflawni eu canlyniadau. Casgliad yr adolygiad oedd: 'Gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd sylweddol am yr oruchwyliaeth a'r rheolaethau sydd ar waith i roi cymorth i sefydliadau'r trydydd sector. Yn ein barn ni, mae'r cynlluniau wedi bod yn llwyddiannus, maent wedi cael derbyniad da ac maent ar y trywydd iawn i gyflawni eu hamcanion cyffredinol.'

Rheolaethau CGGC

- 23 Mae CGGC wedi gweithredu fel corff cyfryngol ers blynnyddoedd lawer, gan weithio gyda'r rhwydwaith o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a rheoli grantiau Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector. Roedd ganddo systemau a rheolaethau ar waith eisoes ac felly roedd yn gallu paratoi'n gyflym i gyrraedd y safonau llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer elfennau Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector y byddai'n eu gweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
- Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector; a
 - Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a'r Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol a'i disodlodd.
- 24 Cytunodd CGGC a Llywodraeth Cymru ar le y gellid symleiddio'r prosesau presennol i gyflymu ceisiadau, asesiadau a dyfarniadau er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n gyflym, gan reoli risgiau. O ganlyniad i hynny, roedd

prosesau wedi eu haddasu i fodloni gofynion y cronfeydd penodol. Ar gyfer Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a Chronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, cafodd cwestiynau ceisiadau eu cwtdogi, gan gadw dim ond y rhai yr ystyriwyd eu bod yn ychwanegu gwerth. Fodd bynnag, gan fod Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn cynnwys cyllid benthyciadau, roedd yn cynnwys proses dau gam fwy trylwyr, gyda chwestiynau manwl: yn gyntaf, i sefydlu cymhwysedd; ac yna i sicrhau llywodraethu da, gwerth am arian, a'r gallu i ad-dalu.

- 25 Ar gyfer y cronfeydd a weinyddwyd gan CGGC yn ystod cyfnod brig 2020–21, cyflwynwyd ceisiadau a dogfennau ategol – fel cyfrifon, cyfriflenni banc a dogfennau llywodraethu – i CGGC ar gyfer gwiriadau diwydrwydd dyladwy drwy un porth ar-lein, gan eu brysennu er mwyn asesu brys yr angen. Cyfarfu panel, gan gynnwys aelodau annibynnol, yn rheolaidd i asesu a sgorio ceisiadau, ac yna gwnaeth argymhellion. Dim ond ar ôl hynny y cafodd dyfarniadau eu cymeradwyo gan Brif Weithredwr CGGC. Anfonwyd llythyrau cynnig grant yn electronig drwy borth llofnodi dogfennau er mwyn osgoi oedi, a rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyfarniadau.
- 26 Roedd mynediad uniongyrchol i gronfa ddata fawr a oedd eisoes yn cwmpasu sefydliadau'r Trydydd Sector yn galluogi CGGC i gynnal gwiriadau sgrinio cychwynnol ar y ceisiadau am gyllid i weld a oeddent yn dod o gyrff a oedd eisoes yn hysbys iddo. Adolygodd Llywodraeth Cymru a CGGC wybodaeth am geisiadau a dyfarniadau yn brydlon er mwyn rheoli'r risg o dwyll, ac osgoi dyblygu unrhyw gronfeydd, neu fylchau o ran cwmpas daearyddol neu ddiben. Roedd gwybodaeth wythnosol yn darparu dadansoddiad manwl o'r sefydliadau a gafodd gyllid, y buddiolwyr arfaethedig; y gwirfoddolwyr a ddefnyddiwyd; y symiau a gynigiwyd ac a gymeradwywyd. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y crynodebau gwybodaeth a'r adroddiadau a gawsant gan CGGC yn fanylach na'r hyn a fyddai wedi bod yn bosibl pe byddai Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r Gronfa ei hun, o ystyried cyfyngiadau capasiti a thrwy adeiladu ar systemau presennol CGGC.

Rheolaethau ymgeiswyr a derbynwyr

- 27 Roedd ceisiadau am gyllid i CGGC yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am eu trefniadau llywodraethu a gwerth am arian. I ymgeiswyr llwyddiannus, roedd llythyrau dyfarnu grantiau neu fenthyciadau yn nodi'n glir y diben y bwriadwyd y cyllid ar ei gyfer yn ogystal â'r gofynion gwybodaeth a oedd yn angenrheidiol i gefnogi hawliadau ac i godi taliadau.
- 28 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn derbyn cyllid ddarparu gwybodaeth wedi ei diweddarau am incwm a gwariant i CGGC ar ddiwedd y chwarter cyntaf yn dilyn y taliad cyllid cyntaf, yn ogystal â darparu tystiolaeth o gynnydd tuag at yr amcanion a nodwyd yn eu cynnig. Roedd darparu'r wybodaeth hon yn rhag-amod ar gyfer rhyddhau'r ail daliad. Roedd angen diweddiariad arall ar ddiwedd cyfnod y cyllid er mwyn bodloni amodau'r cyllid. Roedd yr adroddiadau ar ôl hynny ar sail dangosyddion y cytunwyd arnynt.

- 29 Er nad ydym wedi archwilio'r trefniadau'n fanwl, roedd y gofynion gwybodaeth hyn yn sicrhau monitro parhaus gan dderbynwyr ac yn hwyluso goruchwyliaeth gan CGGC, ac adrodd ymlaen i Lywodraeth Cymru.

Faint o sefydliadau a gafodd gymorth, ar gyfer pa weithgareddau, ac a oes unrhyw arwyddion o lwyddiant?

- 30 Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2021, gweinyddodd CGGC £35.2 miliwn o Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol a Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae CGGC yn cyhoeddi gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn am yr holl ddyfarniadau grant y mae'n eu gwneud, gan gynnwys y derbynnydd a'r swm, drwy wefan, '[360 Giving](#)', sy'n cynnwys gwybodaeth gan ddyfarnwyr grantiau y DU⁶. Mae gwybodaeth CGGC ar wefan '360 Giving' yn cwmpasu gweithgarwch gweinyddu grantiau arferol CGGC, yn ogystal â'r cronfeydd penodol sy'n gysylltiedig â COVID-19 yng Nghronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector y mae CGGC yn ei rheoli ar ran Llywodraeth Cymru.

Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector

- 31 Sefydlwyd Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector ym mis Ebrill 2020 i dalu biliau a chefnogi llif arian, gyda £10 miliwn gychwynnol. Ychwanegwyd £2.5 miliwn arall ym mis Rhagfyr 2020 ar gyfer Cam 2 a £7.23 miliwn ar gyfer Cam 3 a agorodd ym mis Medi 2021. Roedd Camau 2 a 3 yn ehangach eu pwyslais na Cham 1 (gweler hefyd **Atodiad 1**). Dywedodd CGGC, yn ystod 2020–21, ei fod wedi:
- ar gyfer Cam 1:
 - derbyn 148 o geisiadau;
 - cymeradwyo 111 o ddyfarniadau, yn gyfanswm o £4.7 miliwn;
 - diogelu 1,784 o swyddi a 7,690 o swyddi gwirfoddoli; a
 - chefnogi 255,256 o ddefnyddwyr gwasanaeth ar gost gyfartalog o £18.64 y defnyddiwr.
 - ar gyfer Cam 2:
 - derbyn 136 o geisiadau;
 - cymeradwyo 126 o ddyfarniadau, yn gyfanswm o £7.9 miliwn; a
 - rhagwelwyd y byddai'r gwobrau hyn yn creu 246 o swyddi newydd, ynghyd â 122,775 o ddefnyddwyr gwasanaeth neu fuddiolwyr newydd; a 10,222 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd.

⁶ Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd gan CGGC ar wefan [360 Giving](#) yn dyddio'n ôl i fis Hydref 2015.

- nid oedd Cam 3 ar gyfer 2021–22 wedi ei adrodd ar adeg paratoi'r memorandwm hwn.

Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol

- 32 Gyda'r nod o gefnogi gwaith gwirfoddoli, agorodd Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol ym mis Ebrill 2020 gyda £7.5 miliwn gychwynnol, a gynyddwyd i £9 miliwn yn ddiweddarach. Yn 2020-21, cafodd y 19 o Gyngorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru, sy'n cwmpasu'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol, gyllid Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol (yn ogystal â'u dyraniad cyllid craidd blynyddol arferol gan CGGC), sy'n gyfanswm o £550,000, i gefnogi eu gweithgareddau ar lawr gwlad gyda sefydliadau'r Trydydd Sector yn eu hardaloedd.
- 33 Ar 1 Mai 2020, cyhoeddodd CGGC ei fod eisoes wedi cefnogi 14 o sefydliadau gyda Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a bod ganddo enghreifftiau o brosiectau astudiaethau achos a oedd yn esbonio sut yr oedd y cyllid yn cefnogi gweithgareddau a oedd yn cynnwys gwirfoddolwyr. Pan gaeodd Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol i geisiadau newydd ym mis Gorffennaf 2020, nododd CGGC ei fod wedi:
- cael diddordeb gan 500 o sefydliadau, gan arwain at 239 o geisiadau yn gyfanswm o £10.3 miliwn;
 - cymeradwyo 156 o geisiadau, yn cynnwys 6,262 o wirfoddolwyr, a dyfarnu £7.0 miliwn iddynt; a
 - rhoi cymorth i oddeutu 764,073 o bobl drwy brosiectau cymeradwy, ar gost gyfartalog o £9.23 y buddiolwr.
- 34 Nododd Llywodraeth Cymru y dylid trosglwyddo unrhyw falans o Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol nas defnyddiwyd i'r Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol a'i disodlodd. Cyn i Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol gau, dyfarnwyd £7.5 miliwn i sefydliadau, gan gefnogi'r canlynol:
- iechyd, gofal cymdeithasol a lles – £2.55 miliwn;
 - cymunedau – £1.28 miliwn;
 - anabledd – £0.98 miliwn;
 - pobl hŷn – £0.59 miliwn;
 - plant a theuluoedd – £0.57 miliwn;
 - trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol – £0.55 miliwn;
 - dosbarthu bwyd – £0.54 miliwn;
 - lleiafrifoedd ethnig – £0.42 miliwn; ac
 - arall – £0.05 miliwn.

Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol

- 35 Disodlodd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol ym mis Awst 2020, gyda £3.5 miliwn gychwynnol, i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a amlygwyd neu a waethygyd gan y pandemig. Yn ystod 2021–22, darparodd CGGC £507,000 o Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i'w dosbarthu i sefydliadau'r Trydydd Sector yn eu hardaloedd (gweler hefyd **baragraff 32**).
- 36 Ym mis Rhagfyr 2020, derbyniodd Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol £1.5 miliwn ychwanegol a £1.5 miliwn arall ym mis Ionawr 2021. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, adroddodd CGGC ei fod wedi:
- cael diddordeb gan 427 o sefydliadau, gan arwain at 237 o geisiadau Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol yn gyfanswm o £8.9 miliwn;
 - cymeradwyo 182 o ddyfarniadau i brosiectau yn gyfanswm o £6.9 miliwn, gan gynnwys oddeutu 6,702 o wirfoddolwyr; a
 - rhoi cymorth i oddeutu 242,163 o bobl drwy brosiectau cymeradwy, ar gost gyfartalog o £28.45 y buddiolwr.
- 37 O'r £6.9 miliwn a ddyfarnwyd hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, aeth £4.98 miliwn i sefydliadau, gan gefnogi'r canlynol:
- cymunedau – £1.26 miliwn;
 - anabledd – £0.64 miliwn;
 - lleiafrifoedd ethnig – £0.50 miliwn;
 - plant a theuluoedd – £0.43 miliwn;
 - pobl hŷn – £0.35 miliwn;
 - dosbarthu bwyd – £0.30 miliwn;
 - cyngor ac eiriolaeth – £0.27 miliwn; a
 - arall – £1.23 miliwn.
- 38 Gwahoddwyd prosiectau Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol gweithredol a oedd wedi dangos dechrau llwyddiannus i gyflawni gweithgareddau i wneud cais am gyllid am chwe mis arall. Adroddodd CGGC ei fod wedi:
- derbyn 51 o geisiadau am estyniad gwerth £1.7 miliwn;
 - cymeradwyo 33 o estyniadau a dyfarnu £1.3 miliwn i brosiectau presennol, gan gynnwys oddeutu 689 o wirfoddolwyr ychwanegol; a
 - rhoi cymorth i oddeutu 26,526 o bobl ychwanegol⁷.

⁷ Daw ffigurau Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a Chronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol o [grynodedbau CGGC](#).

Yr hyn sy'n hysbys am effaith y cymorth

- 39 Roedd gofynion monitro ac adrodd ar effaith yn rhan annatod o weinyddiaeth Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector o'r cychwyn cyntaf. Cwmpesir holl gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector, gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd drwy Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, drwy drefniant gyda Cefnogi Trydydd Sector Cymru (gweler **Atodiad 1**). Mae'r trefniant hwn yn cynnwys fframwaith monitro effaith y cytunwyd arno ym mis Ebrill 2018. Mae'r fframwaith monitro yn nodi dangosyddion perfformiad, dulliau casglu tystiolaeth a gofynion adrodd gan gynnwys:
- diweddariadau cynnydd misol;
 - adroddiadau dangosyddion perfformiad allweddol chwarterol;
 - adroddiadau ystadegol chwech misol; ac
 - adroddiad goruchwylio blynyddol.
- 40 Roedd yr amodau y darparodd Llywodraeth Cymru gyllid Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector oddi tanynt i CGGC yn cynnwys cydymffurfio â'r fframwaith monitro effaith, er mwyn hwyluso gwaith gwerthuso. Roeddent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CGGC anfon llythyrau grant at dderbynwyr yn cydymffurfio â thempled sy'n adlewyrchu'r fframwaith.
- 41 Roedd y trefniadau monitro ac adrodd yn galluogi Llywodraeth Cymru a CGGC i nodi'r galw, y nifer sy'n manteisio ar gyllid, bylchau yn y cyllid presennol a diffygion cyllid posibl, a phenderfyniadau gwybodus ynghylch dyrannu rhagor o gyllid a thargedu anghenion (gweler hefyd **baragraff 16**).
- 42 Canfu CGGC fod Cam 1 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector wedi bod yn fuddiol wrth helpu sefydliadau a oedd yn gynaliadwy fel arall i aros ar eu traed, a hyd at y pwynt hwnnw, nid oedd yr un o'r sefydliadau a gafodd gymorth wedi methu (gweler hefyd **baragraff 31**), er bod dau ohonynt wedi methu ers hynny. Fodd bynnag, mewn cysylltiad â Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2020, nodi'r adroddiad gwerthuso (gweler **paragraff 20**): 'Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod cyllid Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol wedi ei lywio hyd yma gan rinweddau ceisiadau unigol gyda hawl gyfyngedig i gael gwybodaeth am anghenion cymunedol penodol sy'n codi o bandemig COVID-19. Mae canlyniadau'r dadansoddiad aml-haen hwn yn darparu'r data i ganolbwyntio'n fwy penodol ar grwpiau targed ac anghenion penodol yng nghanam nesaf y penderfyniadau cyllido.'
- 43 Trwy werthuso Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol hysbyswyd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, a'i disodlodd, a oedd yn agored tan ddiwedd mis Mawrth 2021 ac a oedd yn ddarostyngedig i werthusiad parhaus (gweler **paragraffau 35 i 38**).

- 44 Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd adroddiad ar [Effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol](#)⁸. Mae'r adroddiad yn cydnabod cryfderau'r Trydydd Sector a'i gydweithrediad â Llywodraeth Cymru i lunio a chyflwyno ymatebion i'r pandemig. Tynnodd y Pwyllgor sylw at werth cydweithio sefydledig, sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gryfhau a gweithio drwy strwythurau presennol yn hytrach na'u creu neu eu disodli. Pwysleisiodd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd cynnal a gwella gallu'r Trydydd Sector i wrthsefyll heriau yn y dyfodol.
- 45 Nid edrychodd y Pwyllgor yn fanwl ar effeithiolrwydd cymorth ariannol Llywodraeth Cymru, ond dywedodd fod y cyllid wedi ei groesawu'n fawr a'i fod wedi helpu'r sector i oroesi misoedd cyntaf yr argyfwng, gan ei alluogi i ddarparu cymorth hanfodol i gymunedau ledled Cymru. Nododd y Pwyllgor y canlynol:
- yn baradocsaid, sefydliadau'r Trydydd Sector a oedd yn gwbl ddbynol ar gyllid grant a brofodd effaith ariannol leiaf y pandemig, gyda'r effaith ariannol fwyaf ar y rhai a fu'n llwyddiannus wrth arallgyfeirio eu ffynonellau incwm yn y gorffennol;
 - wrth i'r pandemig barhau, byddai rhagor o gymorth ariannol a mwy o hyblygrwydd o ran sut y defnyddir cronfeydd yn hanfodol i gynnal y Trydydd Sector, gan sicrhau ei fod yn gallu parhau i gyfrannu at ymateb ac adferiad; ac
 - os nad oes gan y Trydydd Sector ddigon o adnoddau, mae'n debygol y bydd hyn yn tanseilio ei allu i gyflawni gwaith atal (yn gysylltiedig ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a fyddai'n cynyddu'r pwysau ar wasanaethau statudol.
- 46 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd CGGC [adroddiad ymgynghori allanol](#) ar effeithiolrwydd cyffredinol cymorth ariannol y Trydydd Sector ar draws yr holl ffynonellau cyllid yn ystod y pandemig, gan gynnwys cynlluniau Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cydnabod gwerth gweithio drwy'r cysylltiadau a'r seilwaith presennol; nodir lefelau uchel o foddhad ymhlith buddiolwyr â phrosesau grant; canmolir y cydlynid, yr ymarferoldeb a chyflymder gweithredu y cyllidwyr, a thynnir sylw at y gwersi a ddysgwyd, a fwriedir i sicrhau bod cryfderau a phrofiadau cadarnhaol yn cael eu dwyn ymlaen i lywio cynlluniau cydweithredol neu gynlluniau a gyllidir ar y cyd yn y dyfodol.

⁸ Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar, derbyniodd gyflwyniadau ysgrifenedig a chynhaliodd arolwg o sefydliadau'r trydydd sector.

Atodiad 1: Dyranïad Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2021

Cyllid	Y cyfanswm a ddyrannwyd	Sylwadau
Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector	£19.7 miliwn	<p>Derbyniodd y Gronfa hon £12.5 miliwn yn 2020–21 a £7.23 miliwn yn 2021–22.</p> <p>Darparwyd y cymorth drwy gyfuniad o grant 75% a chyllid benthyciad 25% a oedd yn ddi-log i ddechrau, fel arfer hyd at derfyn cyfunol o £75,000, i helpu i dalu biliau a hwyluso llif arian drwy ddisodli refeniw a gollwyd drwy godi arian.</p> <p>Cam 2 y Gronfa, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, ehangwyd y pwyslais gwreiddiol ar oroesi, drwy ychwanegu elfennau o wella ac amrywio, a chydweithrediad.</p> <p>Cam 3 y Gronfa, cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, agorwyd i geisiadau ym mis Medi 2021. Darparodd grantiau o hyd at £50,000 i gefnogi gweinyddiaeth sefydliadau yn hytrach na gwaith rheng flaen, gan ganolbwyntio ar elfennau goroesi, a ffynnu.</p>
Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol	£9.0 miliwn	<p>Roedd £7.5 miliwn gychwynnol y Gronfa hon yn cynnwys £0.85 miliwn o gyllid presennol a ddefnyddiwyd at ddibenion gwahanol, a £6.65 miliwn o gyllid newydd. Yna cafodd hwb o £1.5 miliwn ychwanegol gan Gronfa Gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru¹.</p> <p>Gweithredodd y Gronfa o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2020, gan wneud grantiau o £10,000 i £100,000² yn gyffredinol i annog mwy o bobl i wirfoddoli, i gefnogi gwasanaethau gwirfoddoli, i gydlynu gwirfoddolwyr ac i dalu treuliau y mae gwirfoddolwyr yn eu talu o'u poced eu hunain.</p>

Cyllid	Y cyfanswm a ddyrannwyd	Sylwadau
Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol	£6.5 miliwn	<p>Disodlodd hon y Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol. Rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2021, cynigiodd grantiau rhwng £10,000 a £100,000 yn bennaf i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a ddaeth i'r amlwg oherwydd COVID-19.</p> <p>Rhodddwyd hwb o £5 miliwn i'r dyraniad cychwynnol yn ddiweddarach o'r Gronfa Gynaliadwyedd.</p>
Cronfa Galluogi Seilwaith y Trydydd Sector	£4.7 miliwn	<p>Cynyddu capasiti Cefnogi Trydydd Sector Cymru dros dro i gefnogi'r sector, gan gynnwys datblygu gwefan Gwirfoddoli Cymru a chyfeirio at ffynonellau cyllid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.</p> <p>Menter gan Lywodraeth Cymru i gydlynu gwirfoddoli ac i gefnogi gwirfoddolwyr, a weithredir drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru, yw Gwirfoddoli Cymru.</p>
Gwirfoddoli Cymru	£0.75 miliwn	Cymorth ar gyfer prosiectau gwirfoddoli yn 2021–22.
Cefnogi Trydydd Sector Cymru	£0.74 miliwn	Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn cynnwys CGGC a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ac mae'n darparu rhwydwaith cymorth ar gyfer y Trydydd Sector cyfan yng Nghymru.
Prosiect 'Adfywio Ymddiriedolaethau' y Comisiwn Elusennau	£0.23 miliwn	<p>Helpu i ryddhau oddeutu £20 miliwn o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol segur.</p> <p>Oherwydd y gohiriwyd ei ddechreuad o ganlyniad i faterion gweithredol yn ystod y cyfyngiadau symud, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r prosiect yn 2022–23.</p>

Cyllid	Y cyfanswm a ddyrannwyd	Sylwadau
Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol	£0.15 miliwn	Defnyddiodd Llywodraeth Cymru £150,000 i sefydlu Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol (a gefnogir ymhellach gan gyllid arall y tu allan i Gronfa Ymateb y Trydydd Sector). Mae Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, a weinyddir gan CGGC drwy ddilyn proses gaffael agored lle mai CGGC oedd yr unig ymgeisydd, yn cynnig benthyciadau hyd at £300,000 i sefydliadau gwirfoddol gymryd perchnogaeth o ased eiddo er budd y gymuned.
Cyfanswm	£41.81 miliwn	Mae hyn yn wahanol i'r dyraniad o £41.79 miliwn oherwydd talgrynnu.

Nodiadau:

¹ I ddechrau, cadwodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn nad oedd wedi ei dyrannu o Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector fel 'Cronfa Gynaliadwyedd' y gellid ei defnyddio i gryfhau cronfeydd eraill pe byddai angen wrth i'r pandemig ddatblygu.

² Mae **Atodiad 3** yn disgrifio'r cymorth a roddwyd i elusen Mind Cymru a ragorodd ar y trothwy nodweddiadol hwn.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Atodiad 2: Amserlen y digwyddiadau allweddol

Mawrth 2020

- Rhoddwyd y cyfyngiadau symud cyntaf ar waith ar draws holl wledydd y DU mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys cau ysgolion, cyfleusterau manwerthu diangen, lletygarwch a hamdden, ac ystod eang o fusnesau.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu £24 miliwn o gronfeydd wrth gefn i sefydlu Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector newydd. Cafodd £5.35 miliwn ychwanegol o gyllid a oedd eisoes wedi ei ddyrannu i gynlluniau cyllid amrywiol y Trydydd Sector ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol a'i ychwanegu at y Gronfa, a oedd yn cwmpasu is-gronfeydd at ddibenion penodol.

Ebrill 2020

- Cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn cymorth ar gyfer elusennau rheng flaen yn Lloegr a chyllid ychwanegol hefyd ar gyfer gwledydd datganoledig. Derbyniodd Cymru £18 miliwn ganlyniadol, a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru i gyllido ei hymrwymiaadau i Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector yn rhannol.
- Lansiodd Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector gyda £10 miliwn gychwynnol, a dynnwyd o Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, ac a weinyddid gan CGGC.
- Yn sgil hynny, cynyddwyd Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol, a weinyddid gan CGGC, a lansiodd gyda £7.5 miliwn gychwynnol a dynnwyd o Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, i £9 miliwn.

Mehefin 2020

- Caniatwyd i gyfleusterau manwerthu diangen a chwaraeon awyr agored ailagor yn amodol ar ofynion cadw pellter cymdeithasol. Ni chaniatwyd chwaraeon tîm.

Gorffennaf 2020

- Caeodd Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol ar ôl dyfarnu £7 miliwn.
- Roedd llety twristiaeth hunangynhwysol, safleoedd gwerysyla, atyniadau dan do, siopau harddwch, parlyrau tatŵ, siopau trin gwallt a siopau barbwr yn cael ailagor. Ail-agorodd sinemâu, amgueddfeydd ac orielau a thafarndai a bwytai awyr agored. Caniatwyd gweithgareddau awyr agored a chwaraeon tîm.

Awst 2020

- Disodlodd Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol gyda £5 miliwn gychwynnol, ac fe'i gweinyddid gan CGGC.

- Ail-agorodd dafarndai a bwytaï dan do, agorodd lleoliadau priodas trwyddedig ar gyfer seremonïau, ond cyfyngid derbyniadau priodas ac angladdau i 30 o bobl. Ail-agorodd byllau nofio, campfeydd dan do a stiwdios ffitrwydd.

Medi 2020

- Gosodwyd cyrffiw o 10 o'r gloch gyda'r hwyr ar fusnesau lletygarwch. Gosodwyd cyfyngiadau symud lleol yn ystod mis Medi yng Nghaerffili, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Casnewydd. Llanelli, Caerdydd, Abertawe, Bro Morgannwg, Torfaen, a Chastell-nedd Port Talbot.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gam 2 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, gyda phwyslais ehangach, gan gwmpasu gwydnwch yn ogystal â goroesi.

Hydref 2020

- Gosodwyd cyfyngiadau symud lleol yn Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy a Bangor.
- Gosodwyd cyfyngiadau cyfnod atal byr ledled Cymru.

Tachwedd 2020

- Caniatawyd i gampfeydd, caffis, tafarndai a bwytaï ailagor i grwpiau o hyd at bedwar o bobl heb gynnwys plant o dan 11 oed.

Rhagfyr 2020

- Ni châi tafarndai, bwytaï na chaffis weini alcohol ac roedd yn ofynnol iddynt gau am 6pm. Roedd atyniadau ymwelwyr awyr agored yn cael aros yn agored, ond roedd atyniadau ymwelwyr dan do a lleoliadau adloniant wedi cau.
- Ychwanegwyd £0.5 miliwn arall, a dynnwyd o gronfeydd wrth gefn, at Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector.
- O 6pm ar Noswyl Nadolig, caewyd pob safle lletygarwch, hamdden a manwerthu diangen. Roedd yn rhaid i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion penodol iawn.

Ionawr 2021

- Ychwanegwyd £4.2 miliwn arall, a dynnwyd o gronfeydd wrth gefn, at Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector.

Mawrth 2021

- Disodlwyd cyngor i 'aros gartref' gydag 'aros yn lleol'. Ail-agorodd gyfleusterau chwaraeon awyr agored. Ail-agorodd siopau trin gwallt a siopau barbwr drwy apwyntiad.

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai £3.0 miliwn ychwanegol o gronfeydd wrth gefn yn cael ei dyrannu i Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector ar gyfer 2021–22.
- Caniatwyd teithio y tu allan i Gymru i'r rhai a oedd â rheswm rhesymol dros wneud hynny. Ail-agorodd ganolfannau garddio, lletyau gwyliau hunangynhwysol, llyfrgelloedd ac archifau. Ailddechreuodd chwaraeon a gweithgareddau awyr agored i bobl dan 18 oed.

Ebrill 2021

- Ail-agorodd atyniadau awyr agored a'r cyfleusterau manwerthu diangen a oedd yn weddill. Ailddechreuodd gyfleusterau lletygarwch awyr agored. Caniatwyd gweithgareddau awyr agored trefnedig, priodasau ac angladdau ar gyfer hyd at 30 o bobl. Caniatwyd canfasio gwleidyddol.

Mai 2021

- Ail-agorodd gyfleusterau lletygarwch dan do ar gyfer grwpiau o hyd at chwech o bobl. Ail-agorodd yr holl lety gwyliau, lleoliadau adloniant, atyniadau dan do. Caniatwyd hyd at 30 o bobl mewn digwyddiadau dan do a hyd at 50 mewn digwyddiadau awyr agored, gan gynnwys priodasau a gwylnosau. Caniatwyd teithio rhyngwladol i wledydd eraill, yn unol â system goleuadau traffig.

Mehafin 2021

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gam 3 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, a agorodd ar gyfer ceisiadau ym mis Medi 2021, i gefnogi gweinyddiaeth yn hytrach na gweithgareddau rheng flaen, gan ganolbwyntio ar elfennau 'goroesi' a 'ffynnu'.
- Roedd hyd at 30 o bobl yn cael cyfarfod yn yr awyr agored. Caniateid digwyddiadau awyr agored mwy wedi'u trefnu, fel rhaglenni chwaraeon, yn amodol ar asesiad risg a mesurau addas, fel cadw pellter cymdeithasol. Gohiriwyd newidiadau ychwanegol i'r rheolau oherwydd dyfodiad amrywiolyn Delta.

Gorffennaf 2021

- Caniateid digwyddiadau dan do wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 1,000 o bobl yn eistedd neu 200 o bobl yn sefyll. Roedd hyd at chwech o bobl yn cael cwrdd dan do mewn cartrefi preifat a llety gwyliau.

Awst 2021

- Dim cyfyngiadau ar nifer y bobl a gâi gwrdd dan do nac yn yr awyr agored. Roedd pob busnes yn cael ailagor. Nid oedd angen gorchuddion wyneb mwyach mewn manau lle bo bwyd neu ddiod yn cael eu gweini, ond anogwyd pobl i'w defnyddio

yn gyffredinol pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol. Dylid cymryd camau rhesymol i atal lledaeniad mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd.

Medi 2021

- Cyflwynwyd pàs COVID ar gyfer mynediad i glybiau nos, digwyddiadau dan do ac awyr agored nad oedd pobl yn eistedd ynddynt, unrhyw ddigwyddiad yr oedd mwy na 10,000 o bobl yn bresennol ynddynt.
- Darparodd Llywodraeth Cymru £1.74 miliwn arall o gronfeydd wrth gefn i gynyddu cyllid Cam 3 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector.

Rhagfyr 2021

- Darparodd Llywodraeth Cymru £3 miliwn arall o gronfeydd wrth gefn i gynyddu cyllid Cam 3 Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector.

Atodiad 3: Astudiaeth achos

I Mind Cymru, yr elusen iechyd meddwl, y gweinyddwyd y dyfarniadau cyfunol mwyaf gan CGGC ar ran Llywodraeth Cymru. Derbyniodd:

- grant o £537,316 o Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol, a ddyfarnwyd ar 19 Mai 2020; a
- grant o £99,980 o Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol, a ddyfarnwyd ar 12 Ionawr 2021.

Roedd y ddau ddyfarniad am gyllid â chyfyngiad amser i gyflwyno rhaglen cymorth iechyd meddwl hunangyfeiriedig 'Monitro Gweithredol' genedlaethol, gan ddarparu un pwynt cyswllt canolog a fyddai'n cyfeirio pobl sy'n agored i niwed ag anghenion iechyd meddwl yng Nghymru i'r gwasanaethau Mind lleol hynny a oedd yn rhan o'r prosiect a fyddai wedyn yn darparu pecynnau cymorth unigol iddynt.

Nid oedd dyfarniadau Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol yn arfer bod yn fwy na £100,000, er i CGGC egluro wrth hysbysebu'r cyllid y gellid rhoi dyfarniadau mwy. Cytunodd swyddogion CGGC a Llywodraeth Cymru y byddai nifer o geisiadau ar wahân o dan y lefel hon gan wasanaethau Mind lleol wedi bod yn feichus ac yn hirfaith pe byddent wedi eu trin yn unigol. Felly, cafodd cais a dyfarniad Mind Cymru eu hagregu. Gweithiodd CGGC gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau na fyddai'r grant yn dyblygu unrhyw gyllid uniongyrchol presennol gan Lywodraeth Cymru ac ni dderbyniodd Mind unrhyw beth o Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector i ddigolledu refeniw a gollwyd.

Bu'n rhaid i Mind Cymru werthuso Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol cyn cael gafael ar Gronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol ac felly lluniodd adroddiadau gwerthuso cipolwg misol ar y rhaglen Monitro Gweithredol drwy gydol cyfnod ei grant Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol. Mae'r ddau grant wedi eu monitro yn unol ag amodau'r cyllid gan Mind a CGGC. Maent wedi adrodd yn gadarnhaol ar y nifer a fanteisiodd ar y gwasanaeth, nifer y gweithgareddau a boddhad y defnyddwyr, ac mae rhywfaint o waith gwerthuso ehangach yn mynd rhagddo. Rhwng mis Mehefin 2020 a mis Ionawr 2021, cofrestrodd 3,997 o bobl ddiddordeb yn y gwasanaeth drwy hunangyfeirio ar-lein ac roedd 2,753 yn bresennol yn eu sesiwn gyntaf, yn dilyn asesiad cychwynnol. Y llwybrau cymorth a ddefnyddiwyd amlaf gan ddefnyddwyr oedd gorbryder (32%), straen (18%) ac iselder (13%), a defnyddiodd 17% o'r defnyddwyr lwybrau lluosog. Yn gyffredinol, nid oedd angen atgyfeirio 62% o'r defnyddwyr ymlaen o'r rhaglen Monitro Gweithredol i fathau eraill o gymorth iechyd meddwl lleol.

Roedd yr un pwynt cyswllt canolog ar gyfer Monitro Gweithredol yn galluogi cyllid lleol i gael ei gysylltu'n uniongyrchol â gweithgareddau lleol o dan gytundebau partneriaeth a oedd yn adlewyrchu nifer y gwasanaethau, fel bod cronfeydd yn dilyn y defnyddiwr. Wrth i 'fannau problemus' COVID-19 ddod i'r amlwg, gyda chynnydd mewn pryder a galw, ond lleihad mewn capasiti gwasanaethau lleol wrth i staff a gwirfoddolwyr fynd yn sâl, dargyfeiriwyd y galw i ardaloedd lle'r oedd capasiti.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Mark Isherwood MS
Committee Chair
Public Accounts and Public Administration

Sent via email to:
SeneddPAPA@senedd.wales

Reference: AC/309/caf
Date issued: 1 July 2022

Dear Mark

The Welsh Community Care Information System

